Deddf Cyllid Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014

2014 dccc 2

Nodiadau Esboniadol

National Health Service Finance (Wales) Act 2014

2014 anaw 2

Explanatory Notes

£5.75

DEDDF CYLLID Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2014

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Rhagfyr 2013 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr 2014. Fe'u lluniwyd gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Adran 1 – Trosolwg

2. Mae adran 1 yn rhoi trosolwg o'r darpariaethau yn y Ddeddf. Mae 3 adran i'r Ddeddf.

Adran 2 – Dyletswyddau ariannol y Byrddau Iechyd Lleol

3. Mae adran 2(2) i (6) yn manylu ar y newidiadau penodol i adran 175 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ('Deddf 2006') sydd eu hangen er mwyn symud Byrddau Iechyd Lleol o ddyletswydd ariannol flynyddol i un a gaiff ei mesur dros gyfnod cyfrifyddu treigl o dair blynedd. Ceir enghraifft o sut y caiff y ddyletswydd ariannol ei hasesu dros gyfnod cyfrifyddu treigl o dair blynedd yn Nhabl 1. Ceir enghraifft o sut y bydd y ddyletswydd ariannol yn adran 175 fel y'i diwygiwyd yn gweithredu yn Nhabl 2.

Tabl 1 – Enghraifft o sut y caiff y ddyletswydd ariannol ei hasesu dros gyfnod cyfrifyddu treigl o dair blynedd

2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
		X			
			X		
				X	
					X

4. Bydd yr asesiad cyntaf (X) o'r ddyletswydd ariannol yn digwydd ar ddiwedd 2016/17. (Dim ond y pedwar cyfnod cyfrifyddu dair blynedd cyntaf y mae'r tabl hwn yn eu dangos).

Tabl 2 – Perfformiad y Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu tair blynedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2017.

	2014/15	2015/16	2016/17	Swm cyfanredol
Costau gweithredu net	X1	X2	X3	X1+X2+X3
Terfyn Gwariant	Y1	Y2	Y3	Y1+Y2+Y3
Tanwariant/(gorwariant) yn erbyn y Terfyn Gwariant				=(Y1+Y2+Y3)-(X1+X2+X3)

5. Os nad yw Bwrdd Iechyd Lleol wedi gwario dros ei derfyn gwariant (a bennir gan Weinidogion Cymru) yn y cyfnod cyfrifyddu treigl o dair blynedd, caiff ei asesu fel ei fod wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol.

6. Fel y'i diwygiwyd mae adran 175(1) o Ddeddf 2006 yn creu dyletswydd i bob Bwrdd Iechyd Lleol reoli ei wariant ym mhob cyfnod cyfrifyddu treigl o dair blynedd fel nad yw'n fwy na'i gyllid ar gyfer y cyfnod hwnnw, a chaiff Gweinidogion Cymru ei wneud yn ddarostyngedig i orswm y caniateir ei oddef.

7. Mae adrannau 175(2) a (2A) o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyfarwyddo pob Bwrdd Iechyd Lleol i lunio, a chyflwyno i'w gymeradwyo, gynllun sy'n nodi sut y bydd yn cydymffurfio â'i ddyletswydd ariannol gan gyflawni ei gyfrifoldebau hollgyffredinol ar yr un pryd i'r bobl hynny y mae'n darparu gwasanaethau iechyd iddynt.

8. Mae adran 175(6A) o Ddeddf 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gydymffurfedd pob Bwrdd Iechyd Lleol â'i ddyletswydd ariannol. Rhaid cyflwyno'r adroddiad cyntaf cyn 31 Mawrth 2018 a phob blwyddyn wedi hynny.

9. Yn rhinwedd adran 2(7) o'r Ddeddf hon, mae adran 176 o Ddeddf 2006 wedi ei diddymu.

Adran 3 – Enw byr a chychwyn

10. Mae'r adran hon yn darparu bod y Ddeddf hon yn dod i rym, yn llawn, ar 1 Ebrill 2014.

COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

11. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar: http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=7575

Cyfnod	**Dyddiad**
Cyflwynwyd	30 Medi 2013
Cyfnod 1 – Dadl	8 Hydref 2013
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau	7 Tachwedd 2013
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau	3 Rhagfyr 2013
Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Cynulliad	3 Rhagfyr 2013
Y Cydsyniad Brenhinol	27 Ionawr 2014

©℗Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael o:

Ar-lein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebu trwy Linell Seneddol ar Lo-Call 0845 7 023474
Archebion ffacs:0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0870 240 3701

Y Llyfrfa
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office) and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
General enquiries: 0870 600 5522
Order through the Parliamentary Hotline Lo-call 0845 7 023474
Fax orders: 0870 600 5533
Email: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0870 240 3701

The Houses of Parliament Shop
12 Bridge Street, Parliament Square
London SW1A 2JX
Telephone orders: 020 7219 3890
General enquiries: 020 7219 3890
Fax orders: 020 7219 3866
Email: bookshop@parliament.uk
Internet: http://www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-10867-5

9 780348 108675